



PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG GYDOL OES - 8 IONAWR 2019

PWNC: CYNNIG GOFAL PLANT I GYMRU

ADRODDIAD GAN: CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL AR GYFER
GWASANAETHAU ADDYSG A CHORFFORAETHOL

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno diweddariad blynyddol o'r flwyddyn gyntaf o weithredu'r Cynnig Gofal Plant ar draws bwrdeistref Caerffili.

2. CRYNODEB

2.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai gofal plant yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu teuluoedd sy'n gweithio yng Nghymru a bod datblygu cynnig gofal plant gwell yn flaenoriaeth. Nod cefnogi teuluoedd gyda gofal plant hyblyg a fforddiadwy o ansawdd yw cefnogi adfywio economaidd, lleihau'r pwysau ar incwm y teulu a helpu rhieni i gymryd rhan mewn gwaith neu ymestyn gwaith gan leihau'r risg y teulu o dlodi. Mae hefyd yn cefnogi lles plant drwy brofiadau cadarnhaol a gofal plant cyfoethog.

2.2 Lansiodd Llywodraeth Cymru eu maniffesto Cynnig Gofal Plant newydd ar gyfer rhieni sy'n gweithio gyda phlant 3 a 4 oed mewn Addysg Cyfnod Sylfaen rhan amser yn 2016. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio yn genedlaethol tuag at darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant yr wythnos a ariennir ar gyfer rhieni sy'n gweithio a sydd â phlant 3 a 4 oed mewn darpariaeth rhan-amser Cyfnod Sylfaen, am 48 wythnos y flwyddyn erbyn diwedd eu tymor yn Llywodraeth 2020/2021.

2.3 Ymunodd Caerffili â'r Gweithredwyr Cynnar ar gyfer Cyfnod 1 Cynnig Gofal Plant ym mis Mawrth 2017 gyda gweithredu'r lleoedd gofal plant a ariannwyd gyntaf ym mis Medi 2017 a'i gyflwyno'n llawn ar draws y fwrdeistref erbyn Ebrill 2018.

2.4 Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r ystadegau allweddol o flwyddyn 1 ar gyfer bwrdeistref Caerffili yn ogystal ag amlygu rhai o'r prif ystadegau penawdau allweddol o werthusiad allanol Llywodraeth Cymru Blwyddyn 1.

2.5 Mae cais cyfalaf Gofal Plant o £6.357 miliwn wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a ragwelir y bydd penderfyniad ar ba brosiectau sydd wedi bod yn llwyddiannus erbyn Nadolig 2018 er mwyn ei gyflwyno 2018-2021.

3. CYSYLLTIADAU Â'R STRATEGAETH

3.1 Mae'r Cynnig Gofal Plant yn cyfrannu at y Nodau Llesiant canlynol o fewn Deddf Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016:

- *Cymru lewyrchus* - bydd Cynnig Gofal Plant yn cefnogi teuluoedd sy'n gweithio ledled y fwrdeistref, i gynyddu eu hincwm cartref gwario drwy'r lleoedd gofal plant a ariennir i'w galluogi i weithio. Nod y cynnig yw cael gwared ar ofal plant fel rhwystr i gael cyflogaeth i'r rhai nad ydynt yn gweithio ar hyn o bryd, yn ogystal â chynorthwyo rhieni i allu cynyddu eu horiau gwaith os dymunir ac felly'n gwella incwm y cartref.
- *Cymru gydnerth* - Nod y Cynnig Gofal Plant yw cefnogi darpariaeth gofal plant yn y gymuned i ddod yn fusnesau cynaliadwy sydd wedi'u hymgorffori yn eu hamgylchedd lleol, yn ogystal â gwella ansawdd y ddarpariaeth. Bydd y Cynnig yn cefnogi swyddi lleol ac yn gwella'r farchnad gofal plant, ac felly'n cynyddu'r argaeledd a hyblygrwydd y gofal plant a gynigir yn lleol i deuluoedd.
- *Cymru iachach* - Mae lleoliadau gofal plant yn cynnig byrbrydau iach trwy'r cynllun dyfarnu byrbryd iach ac fe'u cefnogir i fod yn rhan o'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy a elwir yn lleol yn HEY (Blynyddoedd Cynnar Iach) sy'n sicrhau i'r rhieni o 'ymrwymadau'r lleoliadau' i iechyd plant.
- *Cymru sy'n fwy cyfartal* - Mae rhan o'r Cynnig Gofal Plant yw annog a chefnogi rhieni sy'n byw mewn tlodi i gael mynediad i gyflogaeth heb y rhwystr o ofal plant fforddiadwy. Bydd cyflogaeth yn lleihau'r risg y bydd plant yn cael eu magu mewn tlodi a'r bwlch posibl mewn cyrhaeddiad.
- *Cymru o gymunedau cydlynus* - bydd plant yn cael mynediad at ddarpariaeth gofal plant lleol y mae ei hethos wedi'i ymgorffori mewn darpariaeth sydd wedi'i lleoli yn y gymuned a mynediad at adnoddau cymunedol. Bydd y cynllun peilot hwn yn ceisio cysylltu darpariaeth gofal plant yn y gymuned gyda'u hysgolion lleol i sicrhau cydlynad o wasanaethau i deuluoedd a chymorth cyson i'r plant ifanc sy'n cael mynediad i'r cynnig.
- *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu* - o dan y safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gofal plant rheoledig, mae'n ofynnol i leoliadau gefnogi dealltwriaeth plant o'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Gymreig. Yn ychwanegol at hyn bydd digon o leoedd wedi'u datblygu a'u cynnig trwy ddarparwyr cyfrwng Gymraeg i gwrdd â galw rhieni.
- *Bydd Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang* - bydd lles plant a theuluoedd yn cael ei fonitro fel rhan o'r Cynnig i sicrhau nad yw effaith darpariaeth gofal plant ffurfiol hirach ac unrhyw drawsnewid posibl rhwng darparwyr gwahanol yn niweidiol i les y plant.

4. YR ADRODDIAD

- 4.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai gofal plant yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu teuluoedd sy'n gweithio yng Nghymru a bod datblygu cynnig gofal plant gwell yn flaenoriaeth. Mae cefnogi teuluoedd gyda gofal plant hyblyg a fforddiadwy o ansawdd uchel yn cefnogi adfywio economaidd, gall leihau'r pwysau ar incwm y teulu a helpu rhieni i gymryd rhan mewn gwaith, gan leihau'r risg y teulu o dlodi. Mae hefyd yn cefnogi lles plant drwy brofiadau cadarnhaol a gofal plant cyfoethog.
- 4.2 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu 10 awr o addysg gynnar a ariennir a hyd at 20 awr yr wythnos o ofal plant a ariennir ar gyfer rhieni sy'n gweithio sydd gyda phlant 3 a 4 oed mewn darpariaeth Cyfnod Sylfaen rhan-amser, yn ogystal â 9 wythnos o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol y flwyddyn academaidd erbyn diwedd eu tymor yn Llywodraeth 2020/2021.
- 4.3 Y meini prawf cymhwyster cyfredol ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yw bod yn rhaid i rieni yn y cartref ennill yr hyn sy'n gyfwerth â chyflog isafswm o 16 awr yr wythnos neu fwy. Mewn cartref gyda dau riant, rhaid i'r ddau riant ennill yr hyn sy'n gyfwerth â 16 awr yr un neu fwy, hyd at £100,000 yr un. Gellir adolygu hyn ar ôl y gwerthusiad o weithredu blwyddyn 2.
- 4.4 O fewn bwrdeistref Caerffili rydym yn cynnig lleoedd y Cyfnod Sylfaen yn y ddau ddarparwr gofal plant a gynhelir (meithrinfa) a gofal plant nas cynhelir (sector preifat, gwirfoddol). Yn dilyn cyflwyno'r Cynnig yn llawn, rhagwelwn y bydd angen mwy o ofal plant ar draws y fwrdeistref i gynnig yr 20 awr ychwanegol yr wythnos ond yn enwedig yn ystod y ddarpariaeth gwyliau ychwanegol sydd angen. Hyd yn hyn, mae mwy na 150 o ddarparwyr gofal plant wedi ymuno i gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant ar draws bwrdeistref Caerffili a bwrdeistrefi cyfagos, ac mae pob un yn arddangos Sticeri Ffenest i hyrwyddo eu cynnig i rieni yn ogystal â hyrwyddo trwy eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol.

- 4.5 Mae nifer y ceisiadau wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu, gan gynyddu o 98 o geisiadau am leoedd a ariennir yn nhymor yr hydref 2017 i gyfanswm cronnus o 1036 o geisiadau erbyn diwedd Awst 2018. £4.50 yr awr yw'r gost am bob lle fel cyfradd gyffredinol a osodir ar draws Cymru ar gyfer blwyddyn 1 a 2. 4.4 Cost y lleoedd ar gyfer mis Medi oedd £ 17,759.25 a gynyddodd i £ 206,100 ar gyfer mis Gorffennaf 2018, gan ddod â chyllid sylweddol i'r sector gofal plant ac yn effeithio ar incwm aelwydydd teuluoedd.
- 4.6 Yn ystod y flwyddyn, mae'r data wedi cael eu dadansoddi a'u dychwelyd at Lywodraeth Cymru. O'r 1036 o geisiadau, cymeradwywyd 933 oedd yn cynnwys:
- 14 (2%) o blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
 - 572 (75%) o rieni yn ei ffeindio'n anodd neu'n anodd iawn i fforddio gofal plant
 - 129 (17%) o rieni'n dymuno cael mynediad at ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg
 - 50 (7%) eisiau darpariaeth ddwyieithog
 - 96 (13%) yn dod o ardaloedd Dechrau'n Deg
 - 505 (66%) yn cael mynediad at eu lle Cyfnod Sylfaen
 - 526 (69%) yn datgan bod enillodd y rhiant sy'n ennill fwyaf yn is na £25,599
 - 318 (42%) o enillion yr ail riant yn is na £25,599
 - Dim ond 44 o 1364 o rieni (3.2%) oedd yn ennill mwy na £52,000
 - 167 (22%) teuluoedd gyda rhiant sengl.
- 4.7 Comisiynodd Llywodraeth Cymru hefyd werthusiad allanol o'r ddarpariaeth Cynnig Gofal Plant yn y flwyddyn gyntaf, a gyhoeddwyd ar 22/11/18 ar wefan Llywodraeth Cymru. Rhai o'r penawdau yw:
- Fe wnaeth 4101 o blant gael mynediad at elfen gofal plant o'r Cynnig
 - Roedd 743 o ddarparwyr gofal plant yn darparu elfen gofal plant o'r Cynnig
 - Dywedodd 92% o rieni fod y broses ymgeisio yn syml
 - Roedd cyflwyno tystiolaeth o gyflogaeth yn her benodol i rieni hunangyflogedig, ar gontractau dim oriau neu oriau gwaith hyblyg afreolaidd
 - Dywedodd 40% o ddarparwyr gofal plant fod cynnydd yn nifer y plant ers y flwyddyn flaenorol
 - Nododd 72% o ddarparwyr gofal plant broffidioldeb gwell
 - Adroddodd 76% fod gwell cynaliadwyedd
 - Mae enillion canolrif y rhai sy'n defnyddio'r Cynnig yn debyg i enillion canolrif y boblogaeth gyffredinol £20,800- £25,999
 - Fe wnaeth 37% o rieni gael mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg
 - Mae 88% o rieni yn dweud bod ganddynt fwy o incwm gwario
 - Mae 67% o rieni nawr â mwy o gyfle i gynyddu ei enillion
 - Mae 66% yn teimlo bod penderfyniadau sy'n gysylltiedig â gwaith yn fwy hyblyg
 - Roedd y rhieni a gafodd eu cyf weld yn dweud bod ganddynt lai o straen a phryder
 - Roedd 60% o rieni'n ennill y cyfwerth neu is na chyflog canolrif Cymru
 - Roedd 30% yn ennill £15,999 neu lai
- 4.8 Yn ystod y flwyddyn weithredu gyntaf hon, bu'n hanfodol gweithio mewn partneriaeth ar draws adrannau Cyngor Caerffili, gan gynnwys Treth y Cyngor, caffaeliad, llywodraethu gwybodaeth, derbyniadau, tîm ADY Statudol, yr Uned Cyfathrebu, TG, y gyfraith, y tîm cyfieithu ac argraffu. Mae cysylltiadau Treth y Cyngor wedi ein galluogi i gadarnhau cyfeiriadau a sefyllfaoedd cartref teuluoedd yn ogystal â rhieni sengl a gefnogir i gael mynediad at y lwfans person sengl a oeddent wedi sylweddoli bod ganddynt hawl i wneud cais amdano.
- 4.9 Cyflwynwyd cais cyfalaf gofal plant o £6,357,000 ar gyfer 13 o brosiectau i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2018-21 a disgwyliar penderfyniadau ar unrhyw brosiectau llwyddiannus cyn y Nadolig.

5. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

- 5.1 Mae'r cynnig hwn yn cyfrannu at y Nodau Llesiant fel y'u nodir yn y Dolenni i'r Strategaeth uchod. Mae'n gyson â'r pum ffordd o weithio fel y nodir yn yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn y Ddeddf. Y strategaeth hirdymor yw lleihau'r tloedi mewn gwaith sy'n wynebu teuluoedd oherwydd costau gofal plant, yn ogystal ag annog rhieni i gael gwaith trwy gael gwared ar y rhwystr o gostau gofal plant. Bydd atal tloedi trwy gynyddu cyfle i gael mynediad at gyflogaeth yn cefnogi canlyniadau hirdymor plant. Yn ogystal, bydd darpariaeth gofal plant o ansawdd yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad plant a gall gyfrannu'n gadarnhaol at ganlyniadau cyrhaeddiad hirdymor ar gyfer plant trwy fwy o fynediad at gyfleoedd dysgu o ansawdd.
- 5.2 Yn ystod y broses o weithredu cychwynnol, rhagwelir y gallai'r arian fod o fudd i'r rheiny sy'n gweithio'n barod ac yn defnyddio darpariaeth gofal plant ffurfiol, ond wrth wneud hynny mae'n anelu at annog teuluoedd eraill yn yr hir dymor i gymryd rhaglenni cymorth cyflogaeth a chael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth. Bydd hefyd yn creu sector gofal plant sefydlog a mwy cynaliadwy gyda'r posibilrwydd o greu cyfleoedd cyflogaeth leol bellach.
- 5.3 Gan weithio mewn cydweithrediad â rhaglenni cymorth cyflogaeth, darparwyr gofal plant, ysgolion a darparwyr hyfforddiant, bydd y prosiect peilot hwn hefyd yn rhoi cymorth i'r rhai sy'n dymuno hyfforddi ar gyfer swyddi yn y sector gofal plant, yn ogystal â chreu busnesau cynaliadwy ar gyfer y tymor hwy. Os bydd holl ddarparwyr a swyddogion yr awdurdod lleol yn cydweithio â theuluoedd a rhanddeiliaid, gellir datblygu'r cynnig mewn modd cyfannol, pwrpasol ond cynaliadwy i sicrhau bod darparwyr a theuluoedd yn gallu gwneud ateb ymarferol i'w gyflwyno.
- 5.4 Bydd integreiddio darpariaeth a gynhelir a darpariaeth nas cynhelir i alluogi cynnig hyblyg i rieni yn hanfodol i lwyddiant y cynnig gofal plant trwy gynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn ogystal â chael effaith fwy buddiol o bosib i blant. Mae llawer o'r cynnig yn y Cyfnod Sylfaen ym mwrdeistref Caerffili ar hyn o bryd trwy feithrinfeydd ysgol a gynhelir ac felly mae angen ystyried hyn yn ofalus er mwyn sicrhau bod plant yn parhau i gael mynediad i'w hawl Cyfnod Sylfaen yn ogystal â gallu cael gafael ar ddarpariaeth cofleidiol i fodloni gofynion oriau gwaith rhieni o fewn rheswm.
- 5.5 Bydd ymrwymiad a chyfranogiad gweithredol pob rhanddeiliad yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y dysgu o'r cyfnod peilot ac yn ystod y cyfnod peilot yn ei alluogi i ledaenu ar draws y Gweithredwyr Cynnar ac yn ehangach yn rhanbarthol cyn cyflwyno'r cynnig ledled Cymru.

6. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB

- 6.1 Fel menter Llywodraeth Cymru, mae'r tîm wedi ystyried y goblygiadau cydraddoldeb posibl. Yn ystod y cyfnod cychwynnol hwn bydd yn rhaid i'r gweithredwyr cynnar nodi unrhyw rwystrau a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod dewisiadau ac anghenion rhieni teuluoedd yn cael eu hystyried a'u bodloni yn unigol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg
 - Cymorth i blant ag ADY
 - Teuluoedd sy'n gweithio a allai gael mynediad at ddarpariaeth gofal plant y tu allan i'r ardal gychwynnol a osodir
- 6.2 Bydd y dysgu gan Weithredwyr Cynnar ledled Cymru yn llywio'r asesiad effaith cydraddoldeb llawn.
- 6.3 Yng Nghaerffili, cefnogwyd rhieni i gael eu dewis o ddarpariaeth gofal plant i ddiwallu anghenion eu plant a'u hanghenion eu hunain, gan gynnwys cefnogaeth i'r lleoliad i fod yn gynhwysol a chefnogi plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol, cefnogaeth ehangach i'r sector i ddatblygu ymarfer cynhwysol, mynediad i bob darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref a gweithio gyda'r sector i ddatblygu oriau gwaith hyblyg i gwrdd ag anghenion gweithwyr shifft, oriau hirach, ayb.

7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 7.1 Ariennir y Cynnig Gofal Plant gan grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer staff isadeiledd, grant AAA a lleoedd gofal plant. Cydnabuwyd nad oedd y cyllid yn cwmpasu'n llwyr yr amser a gymerwyd i ddatblygu a gweithredu'r ddarpariaeth lawn a'i bod wedi'i chynnyddu ychydig gan Lywodraeth Cymru.

8. GOBLYGIADAU PERSONÉL

- 8.1 Mae 2.5 o staff wedi'u cyflogi ar gontractau tymor penodol o dan y grant isadeiledd Cynnig Gofal Plant blynyddol - Swyddog Gweinyddwr a Datblygu.
- 8.2 Caiff y grant ei ategu gan swyddi Rheoli a ariennir yn graidd i gefnogi gweithredu a chyflwyno ar draws y fwrdeistref.

9. YMGYNGHORIADAU

- 9.1 Mae'r holl ymatebion o ymgynghoriadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad.

10. ARGYMHELLION

- 10.1 Yr argymhelliad yw nodi cynnwys yr adroddiad a'r gweithredu hyd yn hyn.

11. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

- 11.1 Nodi cynnwys yr adroddiad a'r gweithredu hyd yn hyn.

12. PWER STATUDOL

- 12.1 Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016.

Awdur: Sarah Mutch, Rheolwr Blynyddoedd Cynnar
mutchs@caerffili.gov.uk

Ymgynghorai: Christina Harrhy, Prif Weithredwr Dros Dro
Richard Edmunds, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Addysg a Chorfforaethol
Keri Cole, Prif Swyddog Addysg
Cynghorydd Philippa Marsden, Aelod Cabinet, Addysg a Chyflawniad
Cynghorydd Derek Havard, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes
Cynghorydd Carol Andrews, Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes
Lynne Donovan, Pennaeth Gwasanaethau Pobl
Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoldeb a'r Gymraeg)
Sue Richards, Pennaeth Cynllunio a Strategaeth
Sarah Ellis, Arweinydd Cynhwysiant ac ADY
Paul Warren, Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion
Jane Southcombe, Rheolwr Cyllid (Addysg, Dysgu Gydol Oes ac Ysgolion)
Ros Roberts, Rheolwr Perfformiad
Rob Tranter, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro
Nicole Scammell, Pennaeth Cyllid Corfforaethol ac Adran 151